# Ffurflen cofrestru pleidleisiwr

ar gyfer aelod o'r Lluoedd Arfog, eu priod neu bartner sifil neu eu plant sy'n byw gyda nhw

**Ewch ar-lein**
Os ydych yn 16 oed neu'n hŷn, gallwch lenwi'r ffurflen hon yn **gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio.**

## Gallwch gofrestru fel pleidleisiwr sy'n gwasanaethu neu fel pleidleisiwr cyffredin.

Bydd y ffordd rydych yn dewis yn dibynnu ar eich amgylchiadau personol. Mae gan eich uned Swyddog Cofrestru Uned dynodedig a fydd yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth i chi. Gofynnwch i'ch swyddfa gweinyddu am fanylion cyswllt.

## Cofrestru fel pleidleisiwr sy'n gwasanaethu

- **Os ydych yn aelod o'r Lluoedd Arfog, neu'n briod neu'n bartner sifil aelod o'r Lluoedd Arfog,** mae cofrestru fel pleidleisiwr sy'n gwasanaethu yn caniatáu i chi fod yn gofrestredig am bum mlynedd mewn cyfeiriad penodol yn y DU hyd yn oed os ydych yn symud o gwmpas. Mae'n rhaid i chi adnewyddu'ch cais bob 5 blynedd, ond gallwch ei ganslo ar unrhyw adeg. Mae cofrestru fel pleidleisiwr sy'n gwasanaethu yn arbennig yn ddefnyddiol os ydych wedi'ch lleoli tramor neu o'r farn y byddwch yn cael eich lleoli tramor yn ystod y blynyddoedd nesaf.
- **Os ydych o dan 18 oed ac mae eich rhiant neu warcheidwad yn aelod o'r Lluoedd Arfog ac rydych yn byw gyd nhw,** gallwch gofrestru fel pleidleisiwr sy'n gwasanaethu. Rhaid eich bod yn byw yng Nghymru neu y byddech yn byw yng Nghymru pe na fyddai eich rhiant neu warcheidwad wedi'i leoli dramor Mae'n rhaid adnewyddu eich cofrestriad bob blwyddyn a daw i ben pan fyddwch yn 18 oed. Yna bydd angen i chi wneud cais newydd i gofrestru yn adlewyrchu eich amgylchiadau ar y pryd. Cewch eich atgoffa i wneud hyn cyn eich pen-blwydd yn 18 oed.

## Sut i gofrestru fel pleidleisiwr sy'n gwasanaethu

1. Llenwch y ffurflen cofrestru pleidleisiwr hon.
2. Sicrhewch eich bod yn llofnodi'r datganiad.
3. Dychwelwch eich ffurflen wedi'i chwblhau i'ch swyddfa cofrestru etholiadol. Gallwch ddod o hyd i'w cyfeiriad a rhagor o wybodaeth yn **comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr.**
4. Problemau gyda'r  ffurflen? Cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol oes angen unrhyw help arnoch i ddeall neu gwblhau'r ffurflen hon – neu os oes angen i chi gael y ffurflen hon mewn print bras neu fformat arall.

**Cofrestrwch i bleidleisio cyn gynted â phosibl**, neu efallai y bydd yn rhy hwyr i bleidleisio yn yr etholiad nesaf.

# Ffurflen cofrestru pleidleisiwr ar gyfer aelod o'r Lluoedd Arfog, eu priod neu bartner sifil, neu eu plant sy'n byw gyda nhw

# Cofrestru i bleidleisio

## Cofrestru i bleidleisio

Gallwch gofrestru i bleidleisio os ydych yn preswylio (yn byw fel arfer) yng Nghymru ac yn 14 oed neu'n hŷn (ond ni fyddwch yn gallu pleidleisio mewn etholiadau cynghorau lleol nac yn etholiadau'r Senedd nes eich bod yn 16 oed. Ni fyddwch yn gallu pleidleisio yn etholiadau Senedd y DU nac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (CHTh) nes eich bod yn 18 oed).

Mae'n rhaid i chi hefyd fod naill ai yn:

- Ddinesydd Prydeinig
- Ddinesydd Gwyddelig
- Ddinesydd y Gymanwlad (gan gynnwys Malta a Chyprus) sydd â chaniatâd i ddod i mewn i'r DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw, neu i aros ynddynt, neu sydd heb angen caniatâd o'r fath
- wladolyn tramor sydd â chaniatâd i ddod i mewn i'r DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw, neu i aros ynddynt, neu sydd heb angen caniatâd o'r fath (gallwch bleidleisio yn etholiadau'r Senedd ac etholiadau cynghorau lleol yn unig)
- Ddinesydd yr Undeb Ewropeaidd (UE) (gallwch bleidleisio yn etholiadau'r Senedd ac etholiadau cynghorau lleol, ac efallai y gallwch bleidleisio mewn etholiadau CHTh).

Mae caniatâd i ddod i mewn i'r DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw (a elwir hefyd yn Ganiatâd i Ddod i Mewn neu Ganiatâd i Aros), neu i aros ynddynt, yn cyfeirio at statws mewnfudo cyfreithlon.

## 1 Eich enw a'ch cyfeiriad

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

Eich cyfeiriad cofrestru yn y DU

Cod post

Dyma'r cyfeiriad lle: Ticiwch.

- ☐ rwyf yn byw yn bresennol
- ☐ y byddwn i'n byw pe na byddwn i, neu fy mhriod neu bartner sifil, yn y Lluoedd Arfog ac yn gweithio dramor
- ☐ y byddwn i'n byw pe na byddai fy rhiant neu warcheidwad yn y Lluoedd Arfog ac yn gweithio dramor
- ☐ rwyf wedi byw yn y gorffennol

Cyfeiriad gohebiaeth (os yw'n wahanol)

Cod post/BFPO

Dim ond er mwyn cysylltu â chi ynglŷn â'ch cofrestriad y byddwn yn defnyddio'r cyfeiriad hwn.

## 2 Eich cenedligrwydd

Os oes gennych fwy nag un cenedligrwydd, nodwch bob un ohonynt.

(Ddim yn gwybod eich cenedligrwydd? Gweler adran 13). (mae rhagor o wybodaeth ar dudalen 6)

**Os ydych chi'n ddinesydd Prydeinig, Gwyddelig neu'r Gymanwlad (gan gynnwys Malta a Chyprus) neu'n wladolyn tramor, ewch i adran 4.**

**Os ydych yn ddinesydd yr UE o Ddenmarc, Lwcsembwrg, Gwlad Pwyl, Portiwgal, neu Sbaen, ewch i adran 4.**

**Os ydych yn ddinesydd yr UE o unrhyw wlad arall yn yr UE, ewch i adran 3.**

## 3 Eich statws mewnfudo

**Cwblhewch yr adran hon dim ond os ydych yn ddinesydd yr UE o un o'r gwledydd canlynol:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Awstria** | **Gwlad Belg** | **Bwlgaria** | **Croatia** |
| **Gweriniaeth Tsiec** | **Estonia** | **Y Ffindir** | **Ffrainc** |
| **Yr Almaen** | **Groeg** | **Hwngari** | **Yr Eidal** |
| **Latfia** | **Lithwania** | **Yr Iseldiroedd** | **Romania** |
| **Slofacia** | **Slofenia** | **Sweden** | |

Ers 31 Rhagfyr 2020, a ydych chi wedi cael caniatâd yn barhaus i ddod i mewn i'r DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw, neu i aros ynddynt, neu heb fod angen caniatâd?

Atebwch 'Ydw' os oedd un neu fwy o'r canlynol yn berthnasol i chi ar neu cyn 31 Rhagfyr 2020 a'i fod wedi parhau heb doriad:

- statws preswylydd sefydlog neu statws preswylydd cyn-sefydlog o dan gynllun preswylio'n sefydlog i ddinasyddion yr UE, ac eithrio os gwnaethoch gais fel aelod o'r teulu sy'n ymuno
- caniatâd amhenodol neu ganiatâd cyfyngedig i ddod i mewn i'r DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw, neu i aros ynddynt
- dinesydd y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw ond wedi'i eithrio rhag rheolaethau mewnfudo.

Os mai 'Ydw' yw eich ateb i'r cwestiwn a'ch bod wedi bod yn absennol o'r DU am gyfnod o amser a ganiateir o dan delerau eich statws mewnfudo, yna dylech dicio'r opsiwn 'Ydw' o hyd.

Ticiwch. ☐ Nac Ydw ☐ Ydw (mae rhagor o wybodaeth ar dudalen 6)

## 4 Wedi newid eich enw?

Nodwch eich enw blaenorol mwyaf diweddar (dewisol).

Nodwch ar ba ddyddiad y gwnaethoch newid eich enw (dewisol). D D M M B B B B

(mae rhagor o wybodaeth ar dudalen 6)

## 5 Ydych chi wedi symud tŷ yn ystod y 12 mis diwethaf?

Ticiwch. ☐ Nac Ydw ☐ Ydw

Os ydych, nodwch unrhyw gyfeiriad blaenorol lle rydych wedi byw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf neu efallai y bydd eich cais yn destun oedi.

Cod post/BFPO

Os oedd y cyfeiriad hwn dramor, a oeddech wedi cofrestru yn y DU fel pleidleisiwr tramor?

Ticiwch. ☐ Nac oeddwn ☐ Oeddwn

## 6 Manylion y gwasanaeth

Rheng neu ddosbarth

Ticiwch. ☐ Y Llynges Frenhinol ☐ Y Fyddin ☐ Y Llu Awyr Brenhinol

Rhif gwasanaeth

Catrawd neu gorfflu (y fyddin yn unig)

Ticiwch.

☐ Neu, rwyf yn briod neu’n bartner sifil aelod o’r Lluoedd Arfog, ac wedi rhoi eu manylion gwasanaeth uchod.

☐ Neu, mae fy rhiant neu warcheidwad yn aelod o’r Lluoedd Arfog, ac rwyf wedi rhoi eu manylion gwasanaeth uchod.

## 7 Eich dyddiad geni

D D M M B B B B

Os nad ydych yn gwybod eich dyddiad geni, ticiwch os ydych yn:

14-15 oed ☐ 16-17 oed ☐ 18-75 oed ☐ 76 oed neu’n hŷn ☐

(Ddim yn gwybod eich dyddiad geni? Gweler adran 13).

(mae rhagor o wybodaeth ar dudalen 6)

## 8 Eich rhif Yswiriant Gwladol (os ydych yn 16 oed neu’n hŷn)

Gallwch ei weld ar eich slip cyflog neu ar lythyrau swyddogol ynglŷn â threth, pensiynau neu fudd-daliadau.

☐ Ticiwch os ydych o dan 16 oed.

(Ddim yn gwybod eich rhif Yswiriant Gwladol? Gweler adran 13).

## 9 Manylion cyswllt

Mae darparu rhif ffôn neu gyfeiriad e-bost yn ein helpu i gysylltu â chi’n rhwydd ac yn gyflym ynghylch eich cais.

Rhif ffôn (dewisol)

E-bost (dewisol)

## 10 Y gofrestr agored

Mae'r gofrestr agored yn ddetholiad o'r gofrestr etholiadol, ond ni chaiff ei defnyddio ar gyfer etholiadau. Gall unrhyw un ei brynu a'i ddefnyddio at lawer o ddibenion, gan gynnwys cadarnhau manylion enw a chyfeiriad a marchnata uniongyrchol.

☐ Ticiwch os nad ydych am i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cynnwys ar y gofrestr agored.

Os ydych o dan 16 oed, ni fydd eich manylion yn cael eu cynnwys ar y gofrestr agored.

(mae rhagor o wybodaeth ar dudalen 6)

## 11 Cofrestru'n ddienw?

☐ Ticiwch os ydych hefyd wedi cyflwyno cais i gofrestru'n ddienw.

## 12 Pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy?

Dylid gadael yr adran hon yn wag os ydych yn bwriadu pleidleisio'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio. I bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy, rhaid i chi gwblhau cais ar wahân. Gallwch wneud cais ar-lein neu lawrlwytho ffurflen gais yn **gov.uk/vote-uk-election**. Fel arall, ticiwch isod sut yr hoffech bleidleisio a byddwn yn anfon ffurflen gais atoch.

☐ Drwy'r post ☐ Drwy ddirprwy (rhywun yn pleidleisio ar eich rhan)

## 13 Ddim yn gwybod eich cenedligrwydd, eich dyddiad geni neu'ch rhif Yswiriant Gwladol? Dywedwch pam

Os na allwch ddarparu'r manylion hyn, gallwn ofyn i chi am dystiolaeth arall cyn prosesu eich cais

## 14 Datganiad

Rwyf yn cadarnhau fy mod yn ddinesydd Prydeinig, Gwyddelig, neu'r Undeb Ewropeaidd, neu'n ddinesydd cymwys y Gymanwlad neu'n wladolyn tramor cymwys (gweler 'Cofrestru i bleidleisio' ar dudalen 2 am feini prawf cymhwysedd).

Rwyf yn cadarnhau y byddwn yn byw yn y DU pe na bawn i, fy mhriod/partner sifil neu riant/gwarcheidwad yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth mae'r wybodaeth ar y ffurflen hon yn wir.

Deallaf y bydd yr wybodaeth yr wyf wedi'i rhoi ar y ffurflen hon yn cael ei defnyddio ar y gofrestr etholiadol.

Deallaf os ydwyf yn rhoi camwybodaeth ar y ffurflen hon gan wybod hynny, y gallaf wynebu dirwy ddiderfyn a/neu hyd at chwe mis yn y carchar.

**Llofnod**

**Dyddiad heddiw**

D D M M B B B B

### Pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio

Efallai y bydd angen i chi ddangos ID ffotograffig yn eich gorsaf bleidleisio i fwrw eich pleidlais. Os nad ydych wedi derbyn ID ffotograffig, gallwch wneud cais am ddogfen ID pleidleisiwr am ddim, sef y Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **gov.uk/sut-i-bleidleisio/prawf-adnabod-ffotograffig-angenrheidiol.**

Os oes angen help arnoch i lenwi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol.
Gallwch ddod o hyd i'w cyfeiriad a rhagor o wybodaeth yn **comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr.**

## Eich cenedligrwydd a'ch statws mewnfudo

Mae caniatâd i ddod i mewn i'r DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw (a elwir hefyd yn Ganiatâd i Ddod i Mewn neu Ganiatâd i Aros), neu i aros ynddynt, yn cyfeirio at statws mewnfudo cyfreithlon.

Efallai y bydd angen tystiolaeth ychwanegol arnom ynghylch eich cenedligrwydd neu efallai y byddwn yn gwirio eich cenedligrwydd neu'ch statws mewnfudo yn erbyn cofnodion y llywodraeth.

Mae Adran 3 'Eich statws mewnfudo' yn pennu a ydych yn gymwys i bleidleisio mewn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn unig. Nid yw'n pennu a ydych yn gymwys i gofrestru i bleidleisio, nac i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd neu etholiadau cynghorau lleol yng Nghymru. Os yw'r adran hon yn berthnasol i chi, efallai y byddwn yn gwirio eich cenedligrwydd hanesyddol neu'ch statws mewnfudo hanesyddol yn erbyn cofnodion y llywodraeth.

## Eich dyddiad geni

Os nad ydych yn gwybod eich dyddiad geni, nodwch y dyddiad rydych yn ei roi ar ddogfennau swyddogol (er enghraifft, eich pasbort neu'ch drwydded yrru) neu ticiwch un o'r blychau. Mae'ch dyddiad geni yn nodi pwy ydych ac yn cadarnhau eich cymhwysedd i bleidleisio, a gellir ei ddefnyddio i'ch galw i wasanaeth rheithgor.

## Wedi newid eich enw?

Er enghraifft, efallai eich bod wedi priodi ac wedi newid eich enw. Nid oes rhaid i chi roi manylion i ni am newid eich enw ond bydd yn ein helpu i wybod pwy ydych chi. Os na roddir y wybodaeth hon, efallai y bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth ddogfennol ychwanegol.

## Y gofrestr agored

**Mae dwy gofrestr. Pam?** Gan ddefnyddio gwybodaeth gan y cyhoedd, mae swyddogion cofrestru yn cadw dwy gofrestr - y gofrestr etholiadol a'r gofrestr agored (a elwir hefyd yn gofrestr wedi'i golygu).

Mae'r **gofrestr etholiadol** yn rhestru enwau a chyfeiriadau pawb sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau cyhoeddus. Defnyddir y gofrestr at ddibenion etholiadol, fel sicrhau mai dim ond pobl gymwys a all bleidleisio. Caiff ei defnyddio hefyd at ddibenion cyfyngedig eraill a nodir yn y gyfraith, megis:

- canfod trosedd (e.e. twyll)
- galw pobl i wasanaeth rheithgor
- gwirio ceisiadau am gredyd.

Mae'r **gofrestr agored** yn rhan o'r gofrestr etholiadol, ond ni chaiff ei defnyddio ar gyfer etholiadau. Gall unrhyw berson, cwmni neu sefydliad ei phrynu. Er enghraifft, caiff ei defnyddio gan fusnesau ac elusennau er mwyn cadarnhau enwau a chyfeiriadau. Bydd eich enw a'ch cyfeiriad yn cael eu cynnwys yn y gofrestr agored heblaw eich bod yn gofyn iddynt gael eu tynnu. Nid yw tynnu eich manylion oddi ar y gofrestr agored yn effeithio ar eich hawl i bleidleisio.

**Os ydych yn 14 neu'n 15 oed**, ni fyddwch yn cael eich cynnwys ar y gofrestr agored.

Byddwch yn cael eich cynnwys ar y gofrestr etholiadol, ond dim ond Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff all weld y manylion a ddarperir gennych fel arfer. Ni fydd eich manylion yn cael eu cynnwys mewn unrhyw gofrestr a gyhoeddir.

Tua chwe wythnos cyn etholiad, bydd angen ar rai pobl fanylion pawb sy'n gallu pleidleisio yn yr etholiad hwnnw. Os byddwch yn 16 oed ar ddyddiad etholiadau'r Senedd neu etholiadau cynghorau lleol, bydd eich enw a'ch cyfeiriad yn cael eu rhoi i'r bobl sy'n cynnal yr etholiadau, ac i ymgeiswyr sydd am ddarparu gwybodaeth i bleidleiswyr.

Cewch ragor o wybodaeth ynghylch y ddwy gofrestr a sut gallent gael eu defnyddio drwy fynd i **gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio**.

Os ydych chi'n poeni y gallai cael eich enw neu gyfeiriad ar y gofrestr effeithio ar eich diogelwch, gallai fod opsiynau eraill ar gael i chi.

Mewn rhai amgylchiadau, gallwch gofrestru heb i'ch enw a'ch cyfeiriad ddangos ar y gofrestr. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol. Gallwch ddod o hyd i'w cyfeiriad a rhagor o wybodaeth yn **comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr.**
Cewch ragor o wybodaeth ynghylch y ddwy gofrestr a sut gallent gael eu defnyddio drwy fynd i **gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio.**

## Datganiad preifatrwydd

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol yw'r Rheolwr. Eu sail gyfreithiol dros gasglu'r wybodaeth bersonol yn y cais hwn yw bod y prosesu'n hanfodol i gyflawni tasg er budd y cyhoedd fel y nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig.

Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol brosesu eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel a chydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.

Os gwnaethoch ddewis cael eich eithrio o'r gofrestr agored, gall eich enw a'ch cyfeiriad ond cael eu defnyddio at ddibenion etholiadol a dibenion cyfyngedig eraill a nodir mewn cyfraith (gan gynnwys eu paru â ffynonellau data eraill i gefnogi'r gofrestr etholiadol). Mae'r gyfraith yn caniatáu i'ch gwybodaeth gael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu democrataidd (gan bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr, ac asiantiaid), canfod trosedd, gwysio rheithgor, a gwirio hunaniaeth ar gyfer ceisiadau am gredyd.

Os na wnaethoch ddewis cael eich eithrio o'r gofrestr agored, gall unrhyw un brynu eich enw a'ch cyfeiriad at lawer o ddibenion, gan gynnwys marchnata uniongyrchol.

Gallwch weld yr hysbysiad preifatrwydd ar wefan eich swyddfa cofrestru etholiadol, neu gallwch gysylltu â nhw i ofyn am gopi.
Gallwch ddod o hyd i gyfeiriad eu gwefan a'u manylion cyswllt yn **comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr.**

## Problemau gyda'r ffurflen?

**Cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol os oes angen unrhyw help arnoch i ddeall neu gwblhau'r ffurflen hon – neu os oes angen i chi gael y ffurflen hon mewn print bras neu fformat arall. Gallwch ddod o hyd i'w cyfeiriad a rhagor o wybodaeth yn comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr.**